CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

## GŴYS A RHAGLEN

**ar gyfer**

**CYFARFOD BLYNYDDOL O GYNGOR SIR YNYS MÔN A OHIRWYD**

**a gynhelir yn**

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**DYDD IAU, 30 MAI 2013**

**am 2.00 o'r gloch**

## SUMMONS AND AGENDA

**for the**

**ADJOURNED ANNUAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

**to be held at the**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**DYDD IAU, 30 MAY 2013**

**at 2.00 pm**

# R H A G L E N

**Bydd Steve Thomas, Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn annerch y Cyngor.**
**(Bydd sesiwn fer o holi ac ateb ar gyfer yr aelodau)**

## 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

## 2 CYHOEDDIADAU

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, Arweinydd y Cyngor neu gan y Prif Weithredwr.

## 3 AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.7 o'r Cyfansoddiad, cael gwybod gan yr Arweinydd enwau'r Cynghorwyr y mae ef wedi ei ddewis i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ynghyd â'u Cyfrifoldebau Portffolio.

## 4 CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 Cyfansoddiad y Cyngor, penodi Cadeirydd ar gyfer Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd am y flwyddyn ddinesig.

**[Nodyn: Paragraff 3.4.12.3.1 Penodir y Cadeirydd gan y Cyngor llawn yn ei ail gyfarfod (gohiriedig) o'r Cyfarfod Blynyddol ar ôl i'r Arweinydd gyhoeddi enwau Aelodau'r Pwyllgor Gwaith (ac mewn cyfarfodydd eraill os oes angen) trwy bleidlais gudd, a bydd Rheol Gweithdrefn 4.1.18.5 "Pleidlais a Gofnodir" yn cael ei hatal i'r pwrpas hwn.**

**Paragraff 3.4.12.3.2 Ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o grŵp a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith (ac eithrio mewn awdurdod lle mae'r holl grwpiau gwleidyddol wedi eu cynrychioli ar ei Bwyllgor Gwaith, ac yn y fath achos ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith)].**

## 5 CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau rhannau o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi bod angen i'r Cyngor gytuno arnynt (fel sydd wedi ei nodi ym Mharagraff 3.2 o'r Cyfansoddiad).

## 6 RHAGLEN O GYFARFODYDD ARFEROL Y CYNGOR SIR

Cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd arferol y Cyngor am y flwyddyn i ddod:-

| | |
|---|---|
| 10 Hydref 2013 | - 2:00 pm |
| 5 Rhagfyr 2013 | - 2:00 pm |
| 27 Chwefror 2014 | - 2:00 pm |
| 15 Mai 2014 (Cyfarfod Blynyddol) | - 2:00 pm |

7 **CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU**

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyllid) a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

8 **PENODI I GYRFF ALLANOL**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

9 **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL A PHENODI CYNGHORWYR I WASANAETHU AR BWYLLGORAU**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro ar adolygiad o'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar Bwyllgorau yn dilyn yr etholiad llywodraeth leol a gynhaliwyd yn ddiweddar ar 2 Mai 2013 ac ar benodi Cynghorwyr i Bwyllgorau.

**[Nodyn: Mae cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i grwpiau gwleidyddol ac nid i Aelodau digyswllt. Yn y cyfarfod heddiw (gohiriedig), bydd y Cyngor yn neilltuo Aelodau a enwir i wasanaethau ar Bwyllgorau yn unol â phenderfyniadau eu Harweinwyr Grŵp a byddant yn penodi unrhyw Aelodau Digyswllt i seddau ar Bwyllgorau na ellir eu llenwi yn unol â chydbwysedd gwleidyddol].**

Yn syth ar ôl yr uchod, bydd pob Cyfarfod y cyfeirir ato isod yn cwrdd am gyfnod byr i benodi ei Gadeirydd a'i Is Gadeirydd (ac eithrio'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gafodd sylw yn Eitem 4 uchod):-

- Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth
- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
- Pwyllgor Trwyddedu

**[Nodyn: Anfonwyd rhybuddion ar wahân i bob Aelod a'r aelodau cyfetholedig ar gyfer y cyfarfodydd uchod].**